RHEOLAU PÊL-DDU CYMDEITHAS PŴL-BILIARD Y BYD

1. PÊL-DDU
Caiff y Gêm ei hadnabod fel pêl-ddu.
Dylid chwarae pêl-ddu mewn ysbryd o chwarae teg.
Y dyfarnwr yw'r unig un all farnu beth sydd yn chwarae teg ac yn chwarae annheg a bydd yn gwneud pa weithred bynnag sy'n angenrheidiol i sicrhau cadw at y rheolau.

2. OFFER A GOSODIAD Y BWRDD
Mae'r gêm yn cael ei chwarae ar fwrdd petryal chwe phoced gyda chwe chlustog.
Offer sy'n cael ei ganiatáu ….
(a) Pêl wen.
(b) Dau grŵp o beli nod yn cynnwys saith pêl goch (neu las) a saith pêl felen. Fel arall defnyddir peli wedi'i rhifo o 1 i 7 ac o 9 i 15.
(c) Pêl ddu (Pêl 8).
(d) Rest pry-cop, rest gwddw-gwydd, rest croes.
(e) Ciwiau penodedig.
Nid oes unrhyw offer arall yn cael ei ganiatáu heblaw eu bod wedi cael eu cadarnhau gan CPB.
Yr **wyneb chwarae** yw'r darn gwastad o'r bwrdd sydd yn cael ei amgylchynu â'r clustogau.
Dylai'r wyneb gael ei farcio gyda **dot du** yn lle mae dwy linell lletraws ddychmygol sy'n uno'r pocedi cornel a'r pocedi canol yn croesi.
Mae'r defnydd wedi ei farcio gyda **llinell bôlc**. Llinell syth wedi ei thynnu o glustog i glustog 1/5ed o hyd y bwrdd yn gyfochrog â wyneb y clustog pellaf o ddot y ddu.**Y bôlc** ydi'r ardal betryal wedi'i amgylchynu gan y llinell bôlc a thri chlustog.

3. NOD Y GÊM
Mae'r chwaraewr neu'r tîm sydd yn pocedu eu grŵp nhw o beli nod gyntaf mewn unrhyw drefn ac yna'n potio'r ddu'n gyfreithlon yn ennill y gêm.

4. DECHRAU'R GÊM NEU AILDDECHRAU
Mae'r ergyd dorri agoriadol yn cael ei phenderfynu trwy lagio. Y chwaraewr sydd yn fuddugol wrth lagio sy'n penderfynu pwy sy'n torri. Mae toriadau agoriadol yn cael eu gwneud bob yn ail mewn fframiau dilynol. Yr eithriad ydy ail-raciad oherwydd chwarae araf neu negyddol (rheol 8g).

TREFN LAGIO Dylai'r peli fod o faint a phwysau tebyg i'w gilydd. Yn ddelfrydol, dylid defnyddio dwy bêl wen, ond pan nad oes rhai ar gael, dylid defnyddio dwy bêl nod.
Gyda 'phêl mewn llaw' tu ôl i'r llinell bôlc, gyda un chwaraewr ar y chwith a'r llall ar ochr dde'r bwrdd, mae'r peli yn cael eu taro yr un pryd â'i gilydd tuag at y clustog uchaf i ddychwelyd mor agos â phosibl i'r clustog bôlc. Y chwaraewr y mae ei bêl yn dod i orffwys agosaf at ymyl y clustog bôlc sydd yn ennill.
Mae'r lagiad yn cael ei golli'n syth os ydy'r bêl yn ….
(a) Croesi i hanner y gwrthwynebwr o'r bwrdd
(b) Methu â chyrraedd y clustog uchaf.
(c) Disgyn i mewn i boced.
(d) Neidio oddi ar y bwrdd.
(e) Cyffwrdd clustog ochor.
(f) Dod i orffwys ar y wyneb chwarae o fewn ardal poced heibio i drwyn clustog y bôlc.
Bydd y chwaraewyr yn lagio eto os ydy'r ddau chwaraewr yn colli'r lagiad oherwydd y rheolau uchod neu os ydy'r dyfarnwr yn methu penderfynu pa bêl sydd agosaf.

4a RACIO Mae'r peli yn cael eu trefnu fel sy'n cael ei ddangos gyda'r bêl ddu ar ddot y ddu.

4b Y TORIAD Ergyd gynta'r ffrâm ydy'r toriad. I 'dorri', mae'r bêl wen yn cael ei chwarae o'r bôlc tuag at y triongl o beli nod.
Mae fframiau'n dechrau pan mae blaen y ciw yn cyffwrdd â'r bêl wen.
(a) Mae'r toriad yn gyfreithlon os oes pêl yn cael ei photio, NEU os oes o leiaf ddwy bêl yn croesi'n llawn heibio i linell ddychmygol sy'n uno canol y pocedi canol.
(b) Os yw'n doriad anghyfreithlon mae'r gwrthwynebydd yn derbyn un ergyd rydd ac un ymweliad. Mae'n bosibl chwarae'r bêl wen o lle mae'n gorwedd NEU o'r bôlc NEU mae'r peli'n cael eu hail-racio.

4c CHWARAE O'R BÔLC
(a) Rhaid i'r bêl wen fod yn y bôlc pan mae ergyd yn cael ei chwarae. Os ydy canol y bêl wen ar y llinell bôlc, mae'n cael ei hystyried fel bod yn y bôlc.
(b) Rhaid symud y bêl wen gyda llaw yn unig. Nid gyda charn y ciw. Mae chwaraewr yn gallu parhau i addasu safle'r bêl wen â llaw nes i ergyd gael ei chwarae. Os ydy'r bêl wen yn cael ei chyffwrdd a blaen y ciw mae'n cael ei ystyried fod ergyd wedi cael ei chwarae ac mae'n ffawl os nad ydy'n ateb gofynion ergyd gyfreithlon. Rheol 5d.
(c) Mae'n bosibl chwarae'r bêl wen i unrhyw gyfeiriad. Ar ôl ffawl, os yw'r chwaraewr yn penderfynu chwarae o'r bôlc, dylid lleoli'r bêl wen heb gyffwrdd ag unrhyw bêl arall. Mae'n ffawl, wrth leoli, os ydy'r bêl wen yn cyffwrdd â phêl arall.

4d POTIO'R BÊL DDU WRTH DORRI neu ar ôl ail-racio ….
Mae'r peli yn cael eu hail-racio ac mae'r un chwaraewr yn torri eto. Nid yw'n achosi cosb. Mae hyn hefyd yn wir os oes unrhyw beli eraill yn cael eu pocedu, neu'n gadael yr wyneb chwarae.

4e DEWIS GRŴP AR FWRDD AGORED
Mae'r bwrdd yn parhau'n agored ac NID yw grwpiau'n cael eu dewis …
(a) Ar ergyd dorri.
(b) Ar ergyd sy'n ffawl.
(c) Wrth gymeryd ergyd 'rydd' ar ôl ffawl.
(d) Mewn ergyd 'cyfuniad' pan mae peli o'r ddau grŵp yn cael eu potio.
Ar ôl y toriad mae'r bwrdd yn agored ac mae'r chwaraewyr yn gallu chwarae peli o'r naill grŵp neu'r llall. Nid ydy'n bosibl defnyddio'r bêl ddu fel pêl sydd 'ymlaen' er mwyn potio pêl nod, heblaw fod ffawl wedi cael ei gwneud a'i bod yn ergyd rydd. **O ystyried yr eithriadau hyn, os ydy chwaraewr yn potio pêl neu beli o un grŵp bydd y chwaraewr 'ar' y grŵp hwnnw am weddill y ffrâm.** Mae'r gwrthwynebydd yn gorfod chwarae'r grŵp arall.

4f PENDERFYNU GRWPIAU AR ÔL ERGYD SY'N FFAWL
Os oes ffawl yn cael ei gwneud ar fwrdd agored a bod un neu fwy o beli nod wedi cael eu pocedu, yna mae'r peli hynny yn cael eu hanwybyddu wrth benderfynu ar grwpiau.
Yna mae'r chwaraewr nesaf yn wynebu bwrdd agored ac mae ganddo ergyd rydd o lle mae'r bêl wen wedi dod i orffwys NEU o'r bôlc.
Mae chwaraewr yn cael chwarae unrhyw bêl gydag ergyd rydd ac mae'r bwrdd yn parhau'n agored.

4g PARHAU I CHWARAE
Wrth chwarae, os oes peli'n cael eu potio a bod ergyd gyfreithlon wedi cael ei chwarae yna mae'r chwaraewr yn derbyn ergyd ychwanegol.
Mae hyn yn parhau nes fod chwaraewr naill ai ....
(a) Yn methu pocedu un neu fwy o'r peli iawn NEU
(b) Yn gwneud ffawl.

4h PÊL WEN MEWN LLAW Gyda phêl wen mewn llaw, dylid chwarae o unrhyw le o fewn bôlc i unrhyw gyfeiriad. Mae lleoli cyfreithlon yn cael ei ddisgrifio yn rheol 4c.

4i PELI SY'N CYFFWRDD Dylid chwarae i ffwrdd oddi wrth unrhyw beli sy'n cyffwrdd. Os ydy'r bêl sy'n cyffwrdd yn bêl sydd 'ymlaen' mae'n cael ei ystyried fel bod y chwaraewr wedi chwarae'r bêl honno. I chwarae ergyd gyfreithlon, does dim ond angen i'r chwaraewr botio pêl o'i grŵp ei hun NEU achosi i unrhyw bêl, gan gynnwys y bêl wen, i daro clustog.
Os nad yw'r bêl sy'n cyffwrdd 'ymlaen' mae'n rhaid i'r chwaraewr chwarae i ffwrdd a chyflawni pob un o anghenion ergyd gyfreithlon. Gweler rheol 5d.
Wrth chwarae i ffwrdd oddi wrth ddwy neu fwy o beli sy'n cyffwrdd rhaid cyflawni pob un o anghenion ergyd gyfreithlon. Os nad yw'n bosibl, mae'r gêm yn stêlmêt. Gweler 4r. **Petai pêl sy'n cyffwrdd yn symud wrth 'chwarae i ffwrdd' yna byddai hynny'n ffawl.**

4j ERGYDION CYFUNIAD
Mae'n bosibl potio dwy neu fwy o beli nod heb gosb mewn un 'ergyd sgil'. Gall y peli ddisgyn i'r pocedi mewn unrhyw drefn.
Mewn ergydion cyfuniad mae'n iawn i ....
(a) Gyffwrdd pêl o'ch grŵp eich hun yn gyntaf a photio peli o'r ddau grŵp.
(b) Chwarae i botio gweddill peli eich grŵp a'r ddu i ennill y ffrâm cyn belled a bod y cyffyrddiad cyntaf gyda phêl o'ch grŵp eich hun a fod pob pêl yn cael ei photio.
(c) Chwarae'r bêl ddu (pan mae'r bêl ddu 'ymlaen') yn erbyn pêl y gwrthwynebydd a photio'r ddwy bêl i ennill y ffrâm.
Mewn ergydion cyfuniad ar ôl ffawl, mae'n iawn i ddefnyddio ergyd rydd i gael cyffyrddiad cyntaf gydag unrhyw bêl. Er enghraifft gallwch chwarae pêl y gwrthwynebydd yn erbyn y bêl ddu er mwyn pocedu'r ddu ac ennill y ffrâm, cyn belled â'ch bod chi 'ar' y ddu. Yn yr achos yma nid yw'n angenrheidiol i botio pêl y gwrthwynebydd (gweler rheol 6b).

4k PELI ODDI AR Y BWRDD
Mae'n ffawl os yw pêl yn gadael yr wyneb chwarae, heb ddod yn ôl ohoni ei hun ac yn aros oddi ar yr wyneb (heblaw am pan mae wedi cael ei photio).
Mae peli'n cael eu dychwelyd fel hyn...
(a) Os ydy'n bêl wen, mae'n cael ei chwarae o'r bôlc.
(b) Mae peli nod yn cael eu hail-sbotio.
Os yw pêl yn dod yn ôl i'r bwrdd 'ohoni ei hun' yna ...
(a) Nid ydy'n ffawl os ydy pêl yn gadael yr wyneb chwarae a rhedeg ar hyd clustog ac yn disgyn yn ôl ar wyneb y bwrdd cyn dod i orffwys neu ddisgyn i mewn i boced, cyn belled â bod anghenion eraill ergyd gyfreithlon wedi cael eu cyflawni.
(b) Mae'n ffawl os oes pêl yn gadael yr wyneb chwarae ac yn cyffwrdd person, neu wrthrych sydd ddim yn rhan o'r bwrdd (fel blocyn o sialc) ac yna'n dod yn ôl i wyneb y bwrdd.

4m AIL-SBOTIO A RHOI PELI I'N ÔL AR Y BWRDD
Os ydy'n **bêl wen**, mae'n cael ei rhoi'n ôl ar y bwrdd ac yn cael ei chwarae o'r bôlc. Mae **pêl nod** yn cael ei hail-sbotio gyda'i chanol ar ddot y ddu neu mor agos â phosibl i'r dot hwnnw mewn llinell syth rhwng y dot â chanol y clustog pellaf oddi wrth y llinell bôlc.
Mae peli nod yn cael eu rhoi yn ôl yn y drefn yma...
(a) Pêl ddu.
(b) Peli Coch (neu las neu beli solid 1-7).
(c) Peli melyn (neu streipiog 9-15).
Dylid rhoi peli'n ôl mor agos â phosibl i beli eraill ond heb eu cyffwrdd nhw.

4n YMYRRYD A MACIO'R BWRDD
NID oes cosb os oes peli'n cael eu symud yn yr amgylchiadau hyn...
(a) Gan rywun ar wahân i'r chwaraewyr sy'n cymryd rhan yn y ffrâm NEU
(b) Oherwydd i chwaraewyr gael ei wthio NEU
(c) Oherwydd amgylchiadau sy'n cael eu hystyried heb fod o dan reolaeth y chwaraewr.
Dylai'r dyfarnwr roi'r peli'n ôl mor agos â phosibl i'w lleoliad gwreiddiol. Nid yw chwaraewr yn cael defnyddio sialc neu wrthrych arall fel marciwr.
Nid yw yn ffawl i osod darn o sialc ar y bwrdd tra ydych yn rheoli'r gêm ond dylai gael ei dynnu oddi ar y bwrdd cyn i'r gwrthwynebydd ddod ar y bwrdd.
Mae marcio bwriadol, fel gosod sialc i gynorthwyo ergyd yn ffawl.

4p PÊL YN DISGYN I MEWN I BOCED HEB IDDI GAEL EI THARO
(a) Os oes pêl yn disgyn i mewn i boced heb iddi gael ei tharo gan bêl arall, ar ôl bod yn llonydd am bum eiliad neu fwy, ac heb iddi fod yn rhan o unrhyw ergyd, dylai'r bêl gael ei rhoi yn ôl a bydd y chwarae yn cario ymlaen.
(b) Os oes pêl yn disgyn i mewn i boced 'ohoni ei hun' yn ystod ergyd, ac y byddai'r bêl honno wedi cael ei tharo gan bêl arall pe bai'n dal i fod yno, yna mae'r bêl yn cael ei rhoi yn ôl ac mae pob pêl wnaeth symud yn ystod yr ergyd yn cael eu rhoi yn ôl yn eu lleoliad blaenorol cyn yr ergyd nesaf. Gall y chwaraewr wedyn chwarae yr un ergyd NEU ddewis ergyd wahanol.
(c) Os oes pêl yn balansio am ennyd ar ymyl y boced ac yna'n disgyn mae'n cyfrif fel ei bod yn y boced ac ni fydd yn cael ei rhoi yn ôl ar y bwrdd.

4q PÊL NOD WEDI RHEWI I'R CLUSTOG, HYNNY YW, YN CYFFWRDD
Pan mae'r bêl wen yn gwneud cyffyrddiad cyntaf gyda phêl sydd 'ymlaen' sydd wedi rhewi i'r clustog mae'n ffawl os nad ydy'r ergyd yn achosi ...
(a) I bêl gael ei photio NEU
(b) I'r bêl wen gyffwrdd â chlustog NEU
(c) I'r bêl sydd wedi rhewi i gyffwrdd â chlustog arall NEU
(d) I unrhyw bêl nod arall gyffwrdd clustog nad oedd yn ei gyffwrdd cyn i'r ergyd gael ei chwarae.
Nid yw pêl sydd yn cyffwrdd â chlustog ar ddechrau ergyd ac sydd yn cael ei gorfodi i mewn i'r un clustog yn cael ei hystyried fel bod wedi taro'r clustog hwnnw heb iddi adael y clustog, taro pêl arall, ac yna'n cyffwrdd â'r clustog eto. **Nid yw pêl yn cael ei hystyried fel bod wedi rhewi heblaw fod hyn yn cael ei gyhoeddi gan ddyfarnwr neu chwaraewr cyn i ergyd gael ei chwarae.**

4r STÊLMÊT Os oes sefyllfa yn codi lle nad ydy'n bosibl chwarae ergyd gyfreithlon, gweler rheol 5d, naill ai trwy ddamwain neu trwy fwriad, mae'r ffrâm yn cael ei hailddechrau. Os oes ail-raciad yn cael ei achosi trwy ddamwain, mae'r chwaraewr wnaeth dorri yn wreiddiol yn torri eto. Os oes ail-raciad oherwydd chwarae araf neu negyddol, neu trwy fwriad, mae'r chwaraewyr yn lagio i benderfynu pwy sy'n torri. Gall ail-raciadau gynnwys nifer llai o beli. Rheol 8g.

4s CWBLHAU FFRÂM NEU GÊM Mae ffrâm drosodd pan mae'r bêl ddu'n cael ei photio mewn ergyd gyfreithlon (rheol 5d) a bod pob pêl yn dod i orffwys NEU mewn sefyllfa 'colli ffrâm' (rheol 7).
Dylai'r dyfarnwr aros i'r peli stopio symud a chyhoeddi fod y ffrâm, y gêm neu'r ornest wedi cael ei rhoi i chwaraewr neu i dîm.
Os nad ydy'r dyfarnwr wedi gwneud y cyhoeddiad yma a bod y peli'n dal i symud, yna bydd chwaraewr yn cael ei gosbi trwy **golli'r ffrâm** os oes ergyd arall yn cael ei chwarae NEU os ydy'r chwaraewr yn ymyrryd gyda'r peli sydd ar ôl ar y bwrdd.

5. FFAWLIAU

5a Potio'r bêl wen 'i mewn oddi ar'. Mae hyn yn cynnwys yr ergyd dorri. Ar ôl ergyd 'i mewn oddi ar' mae'r chwaraewr neu'r dyfarnwr yn gallu casglu'r bêl wen o'r fasged (gweler rheol 7e, rhwystro pêl i fynd 'i mewn oddi ar').

5b Chwarae tu allan i'r bôlc pan ddylid chwarae tu mewn i'r bôlc.

5c Potio pêl y gwrthwynebydd heb botio pêl o'ch grŵp eich hun (neu'r ddu os ydy hi'n bêl sydd 'ymlaen') ar wahân i pan mae'r bwrdd yn agored.

5d Methu gwneud ergyd gyfreithlon.

DIFFINIO ERGYD GYFREITHLON :
I chwarae ergyd gyfreithlon mae'n rhaid i'r chwaraewr achosi i gyffyrddiad cyntaf y bêl wen fod gyda phêl sydd 'ymlaen' ac YNA mae'n rhaid iddo unai ...
(a) Botio unrhyw bêl neu beli sydd 'ymlaen' (gweler rheol 6b) **NEU**
(b) Achosi i'r bêl wen neu unrhyw bêl nod i gyffwrdd â chlustog
(gweler eithriad, rheol 5g, snwcer).

5e ERGYDION NAID Bod y bêl wen yn neidio dros bêl arall.
Os ydy'r bêl wen yn gadael gwely'r bwrdd ac yn peidio taro pêl nod a fyddai wedi cael ei tharo pe bai'r bêl wen heb adael y bwrdd yn ystod ergyd union yr un fath fel arall yna mae'r bêl wen yn cael ei hystyried fel ei bod wedi neidio dros y bêl honno. Mae hyn yn ffawl.

5f ERGYDION GWTHIO Mae'n cael ei ddiffinio fel bod blaen y ciw yn aros mewn cysylltiad â'r bêl wen ar ôl iddi ddechrau symud ymlaen.

5g Methu dianc o SNWCER trwy daro pêl sydd 'ymlaen'.

Mae chwaraewr yn cael ei ystyried wedi ei snwcro pan mae'n amhosibl iddo daro unrhyw ran o bêl sydd 'ymlaen' wrth chwarae ergyd mewn llinell syth.
Wrth ddianc o snwcer does dim ond rhaid i'r chwaraewr achosi i'r bêl wen gyffwrdd â phêl sydd ymlaen.
NID oes rhaid potio pêl NAC achosi i unrhyw bêl gyffwrdd â chlustog AR ÔL dianc o'r snwcer.

Dylai chwaraewyr ofyn am gadarnhad o'r snwcer oddi wrth y gwrthwynebydd, y dyfarnwr neu swyddog cyn chwarae eu hergyd.

5h Taro'r bêl wen gyda unrhyw ran o'r ciw ar wahân i'r blaen.

5i Chwarae cyn i'r peli fod wedi dod i orffwys yn dilyn yr ergyd cynt.

5j Chwarae cyn fod peli y mae angen eu hail-sbotio wedi cael eu hail-sbotio.

5k Chwarae allan o dro.

5m TRAWIADAU DWBL Bod blaen y ciw yn taro'r bêl wen fwy nag unwaith yn ystod yr un ergyd. Os ydy blaen y ciw yn taro'r bêl wen ddwywaith a bod y dyfarnwr yn gweld neu'n clywed pob cysylltiad yn glir, yna mae'n ffawl.

5n Chwarae ergyd heb fod gydag o leiaf un droed ar y llawr.
Yr eithriad ydy anabledd corfforol neu anghenion arbennig eraill.

5p Cyffwrdd pêl. Bod corff, dillad, gemwaith neu eiddo arall chwaraewr, ac eithrio blaen y ciw mewn ergyd gyfreithlon, yn cyffwrdd pêl.
Y chwaraewr sy'n gyfrifol os ydy blaen ciw yn disgyn i ffwrdd neu os ydy'r sialc yn cael ei ollwng. Pe bai'r rhain yn cyffwrdd unrhyw bêl ar y bwrdd mae'n ffawl. Mae chwaraewr yn gyfrifol am yr offer sy'n cael ei gario at y bwrdd ond ddim am yr hyn sy'n cael ei ddarparu yn y twrnament. Os ydy blaen rest sydd wedi cael ei ddarparu ar gyfer twrnament yn disgyn i ffwrdd ac yn cyffwrdd pêl nid yw hyn yn ffawl. Mae'n ddarn o offer sydd wedi cael ei 'ddarparu'. Dim ond os yw'n ddarn o offer personol y chwaraewr ei hun y bydd yn ffawl.

6. COSB YN DILYN FFAWL

6a Colli rheolaeth o'r bwrdd.
Ar ôl unrhyw ffawl mae'r chwaraewr sydd ar fai yn colli ei ymweliad nesaf ac mae gan y gwrthwynebydd ergyd rydd yn ogystal ag un ymweliad.

6b AR ERGYD RYDD YN DILYN FFAWL
Mae'r bwrdd yn 'AGORED' ac mae'r chwaraewr sydd yn dod at y bwrdd yn cael cymryd ergyd rydd heb enwebu. Ar yr ergyd gyntaf yn unig, mae'n bosibl chwarae'r bêl wen yn erbyn unrhyw bêl heb gosb.
Ar ergyd rydd mae chwaraewr yn cael...
(a) chwarae neu botio unrhyw un o beli'r gwrthwynebydd.
(b) chwarae ergydion cyfuniad trwy chwarae yn uniongyrchol yn erbyn peli gwrthwynebydd a thrwy hynny botio peli ei grŵp ei hun NEU : chwarae yn erbyn peli ei grŵp ei hun a thrwy hynny botio unrhyw rai o beli ei wrthwynebydd NEU:
(c) Chwarae'r bêl ddu yn erbyn, a photio, peli'r gwrthwynebydd NEU: chwarae'r bêl ddu yn erbyn, a photio, unrhyw beli o'i grŵp ei hun.
(d) Chwarae'r bêl ddu, ond ddim ei photio, heblaw ei bod yn bêl sydd 'ymlaen'. Mae'n bosib potio'r ddu mewn ergyd cyfuniad fel sy'n cael ei ddisgrifio yn rheol 4j.

7. DYMA YDY FFAWLIAU COLLI FFRÂM

7a Gwneud ffawl mewn ergyd pan mae'r ddu'n cael ei photio.

7b Potio'r ddu... pan mae unrhyw beli o grŵp y chwaraewr yn dal i fod ar y bwrdd ar ôl i'r ergyd gael ei chwarae.

7c FFAWL FWRIADOL
Mae chwaraewr sydd yn amlwg ac yn fwriadol yn chwarae pêl sydd ddim 'ymlaen' wedi cyflawni ffawl fwriadol sydd yn arwain at golli fframe. Bydd chwaraewr sydd yn amlwg ac yn fwriadol yn methu gwneud ymdrech i chwarae pêl o'i grŵp ei hun, neu i chwarae pêl sydd 'ymlaen' yn dilyn ffawl yn colli'r fframe.
Mae methu gwneud ymdrech go iawn i chwarae ergyd gyfreithlon yn ffawl fwriadol a bydd yn arwain at golli'r fframe.

7d Mae cyffwrdd neu godi pêl sydd ar wyneb y bwrdd yn fwriadol heb ganiatâd yn arwain at golli'r fframe. Ar wahân i pan ydych yn lleoli'r bêl wen yn y bôlc (rheol 4c) dim ond y dyfarnwr sydd yn cael cyffwrdd pêl ar wely'r bwrdd yn fwriadol. Os nad oes dyfarnwr ar gael, dylid gofyn i'r gwrthwynebydd i godi'r bêl wen.

7e Dal neu rwystro pêl i fynd 'i mewn oddi ar'. Os ydy'r bêl wen yn mynd 'i mewn oddi ar' a bod y chwaraewr yn dal y bêl honno, a'i rhwystro rhag disgyn i mewn i'r boced ac i mewn i grombil y bwrdd, yna mae hyn yn arwain at golli'r fframe.

7f Amharu yn fwriadol ar chwarae gwrthwynebydd gyda gair neu weithred.

8. CANLLAWIAU TWRNAMENT A CHYNGHRAIR CYFFREDINOL

8a ERGYDION SY'N CAEL EU HAMSERU A FFAWLIAU
Mae gan chwaraewyr 60 eiliad i chwarae ergyd, yn cynnwys yr ergyd dorri neu ergyd gyda 'phêl mewn llaw'. Mae'r dyfarnwr yn dechau amseru pan mae'r holl beli wedi dod i orffwys ar ôl yr ergyd cynt. (ond gweler isod, casglu pêl wen sy'n mynd 'i mewn oddi ar').
Os nad ydy chwaraewr wedi chwarae o fewn 60 eiliad mae'n ffawl.
Os oes 30 eiliad yn mynd heibio cyn i chwaraewr chwarae ergyd, dylai'r dyfarnwr gyhoeddi **"tri deg eiliad".**
Dylid gwneud y cyhoeddiad yr union adeg mae'r amser wedi mynd heibio a pheidio gohirio oherwydd fod chwaraewr ar fin chwarae ergyd.
Gall y dyfarnwr gasglu'r bêl wen o'r fasged ei hun os yw chwaraewr yn araf yn gwneud hynny.
Bydd y dyfarnwr yn rhoi y bêl i'r chwaraewr sydd yn rheoli'r chwarae. Cyn gynted â bod y bêl wedi cael ei rhoi i'r chwaraewr, neu bod y chwaraewr ei hun yn casglu'r bêl, dylai'r dyfarnwr ddechrau amseru. Mae gan y chwaraewr 60 eiliad i chwarae ergyd.
Dylai 'Amser Allan' gael ei alw am y rhesymau canlynol....
(a) Os oes chwaraewr yn gofyn am rest neu am bont.
(b) Fod rhywbeth neu rywun yn ffordd y chwaraewr.
(c) Fod yna benderfyniad 'pêl yn cyffwrdd'.

8b YMDDYGIAD DI-CHWARAE-TEG Bod **'ysbryd y gêm'** wedi ei thorri a bod y ffrâm neu'r ornest yn cael ei rhoi i wrthwynebydd.
Mae'n bosibl edrych ar ymddygiad di-chwarae-teg fel....
(a) Iaith anweddus.
(b) Taflu ciw o gwmpas neu ddadsgriwio ciw fel pe bai i roi'r gêm.
(c) Dadlau gyda gwrthwynebydd, aelod o'r gynulleidfa neu'r dyfarnwr.
(d) Anghytuno trwy'r amser gyda phenderfyniadau'r dyfarnwr.
(e) Ymyrryd tra mae gwrthwynebydd yn chwarae ergyd.
(f) Peidio symud oddi wrth y bwrdd neu allan o ffordd y gwrthwynebydd ar ôl ymweliad.

8c HYFFORDDI Chwarae heb gyngor gan eraill.
Os yw'r canlyniad, ym marn y dyfarnwr, wedi cael ei gyfaddawdu mewn unrhyw ffordd, mae'n bosibl penderfynu i roi'r ffrâm i'r gwrthwynebydd.

8d GADAEL YR ARDAL CHWARAE
Os oes rhaid i chwaraewr adael yr ardal chwarae yn ystod gornest, mae'n rhaid iddo gael caniatâd y dyfarnwr.
Dylai hyn ddigwydd dan amgylchiadau eithriadol yn unig. Os nad oes dyfarnwr ar gael, dylai chwaraewyr gymryd toriad tŷ bach rhwng fframiau.

8e Mae'r dyfarnwr yn cael rhoi cyngor ar reolau'r gêm, os oes rhywun yn gofyn iddo.
Bydd y dyfarnwr yn gwneud ei orau glas i egluro. Ni ddylai'r dyfarnwr gynnig unrhyw farn oddrychol a fyddai'n effeithio'r chwarae, fel dweud a oes ergyd gyfreithlon y mae'n bosibl ei chwarae.
Nid yw'n bosibl dal dyfarnwyr yn gyfrifol am roi gwybodaeth anghywir. Cyfrifoldeb y chwaraewr ydy bod yn ymwybodol o'r rheolau.

8f Dylai'r dyfarnwr yn gwneud yn siŵr nad oes gormod o amser yn cael ei gymryd wrth chwarae ergyd.
Bydd hyn yn dilyn rheolau a chyngor cystadlaethau lleol ac mae'n rhaid gwneud hyn pan nad ydy cystadleuaeth yn defnyddio'r 'rheol amser' sy'n cael ei disgrifio yn rheol 8a.

8g AIL-RACIO gyda naw pêl ar ôl chwarae araf neu negyddol.
Dylid racio pymtheg pêl fel arfer. Tynnwch y bêl ar gopa'r triongl a'r pum pêl yn y cefn oddi yno. Dylai'r chwaraewyr lagio i benderfynu pwy sy'n torri.

8h Mewn gemau DWBWL pan mae chwaraewr yn mynd at y bwrdd, mae sgwrs gydag unrhyw un yn cynnwys y partner yn ddi-chwarae –teg ac yn cael ei gosbi yn ôl rheolau'r gystadleuaeth.

8i CHWARAE HEB DDYFARNWR Dylai anghydweld rhwng chwaraewyr gael ei gyfeirio at swyddogion y twrnament. Dylid stopio'r chwarae i ganiatáu i swyddog gael ei alw, gan fod rhaid i unrhyw brotest gael ei gwneud cyn i unrhyw ergyd bellach gael ei chymeryd. Fel arall nid yw'n bosibl ystyried unrhyw brotest.
Os oes chwaraewyr yn methu gwneud hyn mae'n cael ei ystyried fel bod dim ffawl wedi digwydd. Mae'n rhaid i chwaraewyr barchu cais y gwrthwynebydd i stopio'r chwarae a galw am swyddog.
Gallai methu â gwneud hynny arwain at fforffedu fframe neu ornest.



Cyhoeddwyd : Gorffennaf, 2009. E-bost : rules@blackball.co.uk